Admiral

Bae Abertawe
Swansea Bay
10k
Medi 17 Sept 2023

# RAS
# Y MASGOTIAID
# 17 Medi 2023

**Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais - 4 Medi 2023**

**Manylion y Ras**

- Mae'n rhaid i'r masgotiaid ymgynnull y tu ôl i redwyr y ras 10k erbyn 11am.
- Bydd Ras 100m y Masgotiaid yn dechrau am oddeutu 11.10am o Faes San Helen, yn syth ar ôl i redwr olaf y brif ras 10k groesi'r llinell ddechrau.
- Sylwer y bydd Oystermouth Road ar gau o 6.00am tan oddeutu 4.00pm.
- Mae Ras y Masgotiaid yn darparu adloniant arbennig i'r gwylwyr wrth iddynt aros i'r rhedwr cyntaf groesi'r llinell derfyn, felly mae pranciau a thactegau Masgotiaid yn dderbyniol (o fewn rheswm).
- Bydd y masgot buddugol yn derbyn siec am £100 i'w roi i elusen o'i ddewis.
- Oherwydd natur Ras 100m y Masgotiaid, nid oes tâl mynediad.
- Mae opsiwn i Fasgotiaid gyrraedd o 8.30am i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i dynnu lluniau gyda Rhedwyr/Rasys Iau ac i hyrwyddo eich elusen/sefydliad o'ch dewis.

**Rheolau a rheoliadau'r ras**

- Mae'n rhaid i'r Masgotiaid wisgo gwisg sy'n cyfyngu ar symudiadau megis corff, traed neu ben mawr.
- Mae'n rhaid i'r holl fasgotiaid lofnodi indemniad (wedi'i atodi).
- Mae'n rhaid i fasgotiaid fod yn gysylltiedig ag elusen gofrestredig neu grŵp/sefydliad/cwmni cofrestredig.
- Os yw gwisg y masgot yn eich caniatáu i redeg yn gyflym, gofynnir i chi gwblhau fforffed megis hercian neu redeg â thri choes.
- Mae Cyngor Abertawe'n cadw'r hawl i rannu enwau masgotiaid, defnyddio cyhoeddusrwydd a lluniau ohonynt ar gyfer datganiadau i'r wasg cyn ac ar ôl y digwyddiad.
- Mae gan Gyngor Abertawe'r hawl i wrthod mynediad ar unrhyw adeg.
- Nid yw Cyngor Abertawe'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir yn ystod y digwyddiad hwn.
- Bydd penderfyniad y dyfarnwr swyddogol ynghylch yr holl faterion yn derfynol.
- Drwy lofnodi'r datganiad hwn rydych chi'n cytuno i'r cyhoeddusrwydd o ganlyniad i ennill y ras a'r sesiwn tynnu lluniau wrth gyflwyno'r siec i'r elusen enwebedig.
- Mae'r dyfarnwr swyddogol yn cadw'r hawl i ddiarddel unrhyw ymgeisydd o'r ras am ymddwyn mewn ffordd annheg.
- Os bydd mwy nag un enillydd, bydd yr arian yn cael ei rannu'n gyfartal.
- Gall masgotiaid gael saib ar unrhyw adeg.
- Darperir ardal newid a gorffwys gynnil.
- I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch Lindsay Sleeman ar 01792 635428.

# RAS Y MASGOTIAID 17 Medi 2023

## Ffurflen Gais

| | |
|---|---|
| **Enw llawn y rhedwr:** | |
| **Enw'r masgot:** | |
| **Cwmni/Sefydliad/Grŵp:** | |
| **Elusen enwebedig:**<br><br>**Rhif yr Elusen:** | |
| **Cyfeiriad:** | |
| **Côd post:** | |
| **Rhif ffôn symudol/Rhif ffôn ar ddiwrnod y digwyddiad:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |

**Datganiad**

A fyddech cystal â derbyn fy ffurflen gais ar gyfer ras masgotiaid 10k Bae Abertawe Admiral a gynhelir ar 17 Medi 2023. Rwy'n ymwybodol fy mod i'n cymryd rhan ar fy menter fy hun ac nid yw'r trefnwyr yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod a bod yr hyn a nodwyd yn fy nghais yn gywir, hyd y gwn i.

Drwy lofnodi'r datganiad hwn, rwy'n cytuno i gydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau -

Llofnod ________________________ Dyddiad:____________________________

Printiwch yr enw: ___________________________________________________________

Ar ran: __________________________________________________________

**E-bostiwch y cais at lindsay.sleeman@abertawe.gov.uk**